*Ysgol Plas Coch*
*Ffordd Stansty*
*Wrecsam*
*LL11 2BU*
*Ffôn: 01978 311198*
*Ffacs: 01978 311198*

Ysgol Plas Coch
Stansty Road
Wrexham
LL11 2BU
Tel: 01978 311198
Fax: 01978 311198

# YSGOL PLAS COCH

**Mr Osian Jones BA**
***Pennaeth* Head Teacher**

*E-bost*/E-mail: **mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk**
*Gwefan/*Website: https://ysgolplascoch.cymru

**Taith Caerdydd Mehefin 3ydd – 5ed**

Annwyl rieni,

Dyma ychydig mwy o wybodaeth am y daith i Gaerdydd wythnos nesaf:

- Bydd y bws yn cychwyn o Ysgol Plas Coch am **7.30am.** Gofynnwn i'r plant fod yma erbyn **7.20am** er mwyn cael amser i lwytho'r bws. **Ni fydd y bws yn gallu aros i unrhyw un sy'n hwyr.**
- Bydd angen pecyn bwyd, mewn bag cefn / rucksack ar y plant i'w fwyta yn ginio ar y ffordd lawr i Gaerdydd. Darperir bwyd ar gyfer gweddill y tridiau gan yr Urdd.
- Ni fydd gan y plant lawer o amser i wario arian - mae yna siop a pheiriannau diod yn y ganolfan a bydd yna siopau yn rhai o'r atyniadau. Rydym yn argymell uchafswm o £25 - cyfrifoldeb y plant fydd yr arian.
- Sicrhewch fod enw eich plentyn ar label eu dillad.
- **Nid ydym yn caniatáu i'r plant ddod â ffonau symudol efo nhw.**
- Bydd y bws yn cychwyn yn ôl o Pwll Mawr tua 1:30pm ar y dydd Gwener. Rydym yn disgwyl y byddant yn ôl erbyn tua **4:30pm** yn yr ysgol. Os bydd unrhyw newidiadau i'r amser, byddwn yn eich diweddaru drwy ap yr ysgol.
- Os yw eich plentyn yn dioddef o salwch teithio, rhowch dabledi cyn cychwyn. Gallwch roi rhai i'r athrawon i'w cadw i roi i'r plant cyn cychwyn yn ôl.
- Bydd angen cwblhau ffurflen caniatâd yn swyddfa'r ysgol os oes angen i staff weinyddu unrhyw feddyginiaeth (e.e. gwrthfiotigau) tra ar yr ymweliad.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, cysylltwch â'r ysgol.
Diolch yn fawr,

Osian Jones